



Cyngor Sir Ddinbych

Cynllun Gwella

Mynediad i Gefn Gwlad

2018-2028

Amlinelliad ac Amserlen

Yn Ymgorffori Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
Terfynol V1 Hydref 2017

Fersiwn 1 16 Awst 2017

sylwadau ychwanegol H Arndt / H Mrowiec / A Walls

Fersiwn 2 22 Awst 2017

Terfynol 30 Hydref 2017-11-03

Wedi Ymgynghoriad CE&DLAF

Cynllun Gwella Mynediad i Gefn Gwlad Sir Ddinbych: Amserlen

Cyflwyniad: Pwysigrwydd hawliau tramwy Sir Ddinbych

Mae gan Sir Ddinbych dros 1,300 cilometr o hawliau tramwy cyhoeddus; rhwydwaith trwchus o lwybrau sy'n cael eu dosbarthu fel llwybrau troed, llwybrau ceffylau, cilffyrdd a ffyrdd cyhoeddus diwyneb. Mae gan y Sir hefyd rai o'r golygfeydd gorau, nid yn unig yng Nghymru ond ym Mhrydain gyfan, yn eu plith: traethau a thwyni euraid; Dyffryn Clwyd; Mynydd Hiraethog o fryniau a phatiau, a Mynydd y Berwyn ynghyd â dynodiad Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy; Camlas Treftadaeth y Byd gyda'i lwybr amlddefnydd poblogaidd trwy ddyffryn Dyfrdwy isaf; a Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa sy'n mynd drwy'r AHNE gan wneud mynediad yn y sir o arwyddocâd cenedlaethol.

Nid yw'n syndod bod ein rhwydwaith hawliau tramwy'n cael ei werthfawrogi'n fawr a'i ddefnyddio'n helaeth gan drigolion Sir Ddinbych a'r myrdd ymwelwyr â'r cylch. Dyma'r prif ddull sydd gan bobl o gyrraedd calon cefn gwlad draw o ruthr bywyd bob dydd a ffyrdd sy'n cael eu defnyddio gan geir, i fan lle gallant ymlacio, magu nerth newydd, ac archwilio a mwynhau heddwch, llonyddwch a harddwch mawr yr ardal eithriadol hon.

Mae swyddogaeth bwysig i'r rhwydwaith hawliau tramwy a'r manau agored lluosog fel camlesi, parciau gwledig a llynnoedd, gan ddod â chryn adfywiad economaidd yn ogystal â buddiannau iachusol, cymdeithasol a chymunedol i Sir Ddinbych gyfan.

Mae'r cynllun hwn – y Cynllun Gwella Mynediad i Gefn Gwlad (yn ymgorffori'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy statudol) – yn ymwneud â sut all y Sir ymgymryd â'i dyletswyddau statudol pwysig tuag at fynediad ar gyfer adloniant, a hawliau tramwy'n arbennig, yn fwy effeithlon ac effeithiol, fel bod modd cofnodi holl lwybrau'n gywir, eu cynnal yn dda a gweld ei bod yn hawdd cael hyd iddynt a'u dilyn. Mae hefyd ynghylch sut mae modd gwella'r rhwydwaith; i sicrhau bod cymaint o lwybrau ag y bo modd ar agor i rai sydd ag anawsterau symud neu anghenion arbennig eraill a bod rhwydwaith da o lwybrau ar gael hefyd i'r rhai sydd eisiau mwynhau cefn gwlad ar gefn ceffyl, ar feic neu mewn cerbyd, jîp neu feic gwlad. Ac mae'n ymwneud â sicrhau bod pawb sy'n pryderu ynghylch hawliau tramwy Sir Ddinbych neu sydd eisiau mwynhau gogoniant cefn gwlad ehangach a manau gwledig lleol yn gallu cael y wybodaeth sydd arnynt ei hangen ynghylch lliaws cyfleoedd ein cefn gwlad a sut i ddefnyddio'r rhain yn ddifyr, yn ddiogel ac yn gyfrifol.

Cefndir

Ym mis Medi 2008 cyhoeddodd Cyngor Sir Ddinbych ei Gynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT) cyntaf. Dangosodd y cynllun sut fyddai'r Cyngor Sir yn nodi, blaenoriaethu a chynllunio gwelliannau i hygyrchedd yn y sir. Nododd y cynllun y blaenoriaethau ac amcanion ar gyfer mynediad i gefn gwlad ers 2008 ac mae wedi arwain sut y datblygodd gwelliannau mynediad.

Yn ôl y ddeddfwriaeth¹ a chanllawiau statudol diwygiedig², mae'n eglur ein bod yn gorfod adolygu'r cynllun a chyhoeddi un arall yn negfed flwyddyn a blwyddyn olaf y CGHT

¹ Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000

gwreiddiol. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio'r hyn sydd angen i ni wneud, sut gaiff ei gyllido ac amserlen ar gyfer yr adolygiad. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru i'w cael yma:

<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/rights-of-way-and-wider-access/rights-of-way/?skip=1&lang=cy>

Gofynion yr Adolygiad

Dan Adran 60 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 mae gofyn i'r Cyngor wneud asesiadau newydd fel y pennwyd gan y ddeddf, gan adolygu'r CGHT presennol a phenderfynu a ddylid ei addasu.

Yr asesiadau yw:

- Asesu i ba raddau mae 'hawliau tramwy lleol' cyfarfod anghenion presennol a thebygol y cyhoedd yn y dyfodol.
- Y cyfleoedd sy'n cael eu darparu gan hawliau tramwy lleol ar gyfer ymarfer a mathau eraill o adloniant awyr agored a mwynhu'r Sir.
- Hygyrchedd hawliau tramwy i bobl ddall neu rannol ddall ac eraill gydag anawsterau symud.

Mae angen i'r cynllun hefyd gynnwys datganiad o'r camau y bwriada'r Awdurdod eu cymryd ar gyfer rheoli hawliau tramwy, gan roi sylw arbennig i'r materion a driniwyd yn yr asesiad. Yn ogystal, mae Canllawiau Llywodraeth Cymru ar adolygiadau CGHT yn gofyn gwneud asesiadau ar y canlynol:

- Cyflwr y rhwydwaith Hawliau Tramwy a'i gofnod (Map a Datganiad Diffiniol) ac mae CNC yn mynnu gwybodaeth am gofnodion cyfyngiadau a'r prosesau ar gyfer awdurdodi hyn.
- Cyhoeddusrwydd a rheolaeth.
- Adnoddau sydd ar gael i ddiwallu anghenion pobl.
- Arfarniad o'r graddau y cyflawnwyd y CGHT cyfredol.
- Cyfleoedd i gyfrannu at amcanion Teithio Llesol.
- Cyfleoedd i gyfrannu at amcanion Ffyniant.
- Cyfleoedd i gyfrannu at Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- Cyfleoedd i gyflawni cynlluniau ac amcanion eraill.
- Adolygiad o ddatganiadau polisi.

Diffiniwyd 'Hawliau Tramwy Lleol' i gynnwys holl hawliau tramwy sy'n cael eu dangos ar y 'Map Diffiniol', holl lwybrau troed, llwybrau ceffylau a llwybrau beicio eraill nad ydynt wrth ochr lôn gerbydau. Bydd cwmpas ein cynllun ein hunain hefyd yn ymestyn i ystyried y cyfleoedd oherwydd Tir Mynediad, safleoedd cefn gwlad dan reolaeth y sir a thir priodol yn amodol ar ddarpariaethau mynediad ffurfiol sy'n bwysig i'r cylch neu gymunedau.

Mae gofyn i'r CGHT newydd fod â 'Datganiad Cyflawni'. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu bob blwyddyn i ddangos cynnydd y gwaith o fewn y CGHT a hefyd i nodi'r gwaith fydd yn

² Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy Gorffennaf 2016 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru dan adran 61(4) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

cael ei wneud bob blwyddyn. Bydd hyn yn caniatáu diweddarau'r cynllun a chadw golwg ar gynnydd.

Ymgynghori a Chyfranogiad y Cyhoedd

Rhaid i'r ddogfen ddiwygiedig derfynol gael cefnogaeth eang pawb â diddordeb. Mae hyn yn gofyn rheoi cyfleoedd priodol i bawb o'r fath gyfrannu at y drefn adolygu a'i llywio. Bydd rhestr o ymgynghoreion yn cael ei pharatoi a bydd cyhoeddusrwydd i sicrhau ymgynghori â phawb sydd eisiau cymryd rhan ar bob cam.

Bydd Ymgynghoreion Statudol yn cynnwys holl Gyngorau Tref a Chymuned, AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, pob awdurdod priffyrdd lleol sy'n ffinio â Sir Ddinbych ynghyd â'u Fforymau Mynediad Lleol, Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Ddinbych, Cyfoeth Naturiol Cymru, holl grwpiau statudol sy'n cael eu hymgyngori ar gyfer gorchmynion cyfreithiol llwybrau, grwpiau a mudiadau defnyddwyr lleol sy'n cynrychioli buddiannau deiliaid tir a chadwraeth bywyd gwyllt.

Mae angen ymgynghori â buddiannau ehangach ar ddau wahanol gyfnod o broses ddatblygu'r cynllun.

- Ar y dechrau (cyfnod 2), i ddweud wrth bobl am y broses a gwahodd cyfraniadau.
- Yng nghyfnod 5 i ymgynghori ar ddrafft y cynllun gwella.

I gynorthwyo'r ymgynghori, bydd holl asesiadau a drafftiau ar gael ar wefan Sir Ddinbych. Bydd y Cyngor hefyd yn rhoi hysbysiad mewn dau bapur newydd lleol o sut mae modd edrych ar ddrafft y cynllun a gwneud sylwadau.

Bydd copiâu o'r dogfennau ar gael hefyd i'w gweld yn rhydd ar holl adegau rhesymol yn Neuadd y Sir yn Rhuthun a'r Swyddfeydd yng Nghaledfryn, Dinbych. Bydd copi o ddrafft y Cynllun Gwella Mynediad i Gefn Gwlad a'r asesiadau ar gael i'w lawrlwytho neu, am bris rhesymol, fel fersiynau argraffedig. Bydd holl adroddiadau ar gael yn ddi-dâl ar ffurfiau eraill (fel sain) ar gais. Bydd holl ddogfennau ymgynghori ar gael yn unol â pholisi iaith Gymraeg Sir Ddinbych.

Cwmpas Adolygiad y Cynllun Gwella

Bu newidiadau sylweddol ers cyhoeddi'r CGHT presennol, o ran sut y cânt eu rheoli a'u cyllido ac mewn deddfwriaeth. Erbyn hyn mae mwy o angen fyth am gynllun blaenoriaethol a chilir ar sail tystiolaeth i dargedu adnoddau wrth roi'r budd cyhoeddus mwyaf trwy gyflawni ar draws meysydd polisi lluosog a chyd-fynd â gwasanaethau a phartneriaid eraill.

Felly, dylai'r Cynllun Gwella newydd gwmpasu mynediad i gefn gwlad yn ei ystyr ehangaf. Bydd gwneud hynny'n cynhyrchu cynllun cyfannol nad yw nid yn unig yn gallu rhoi sylw i'r rhwydwaith hawliau tramwy, ond hefyd roi mynediad at yr amgylchedd naturiol, buddiannau iachusol, bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd, cludiant cynaliadwy (yn cysylltu â theithio llesol), twristiaeth a chyfrannu at yr amcanion / datganiad ffyniant, gan gynnwys, gordewdra plant, pobl hŷn a Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol 2013-2023 Sir Ddinbych ei hun yn ogystal â bod â hyblygrwydd i gwmpasu newid deddfwriaethol a strategol dros 10 mlynedd i'r dyfodol.

Proses adolygu'r Cynllun Gwella

Mae'r cynllun presennol yn gweithio'n dda ond mae profiad ers 2007 yn golygu bod cyfle gennym i ehangu ei gwmpas ac edrych o'r newydd ar beth mae ein trigolion ac ymwelwyr eisiau o'r rhwydwaith llwybrau ac ystyried ble gallwn ateb y galw hwn yn hytrach na dim ond cadw'r sefyllfa bresennol.

Mae'r canllawiau'n cynghori ein bod yn dilyn dau faes ymchwil ar wahân (er cysylltiedig).

1. Adolygiad trwyadl a gwrthrychol o'r sefyllfa bresennol o ran maint, natur ac ansawdd y rhwydwaith llwybrau a chyfleoedd mynediad eraill yn Sir Ddinbych a sut gaiff ei reoli. Mae hyn yn cynnwys asesiad o gyflwr y Map Diffiniol a'i gofnodion cysylltiedig (newidiadau a gorchmynion cyfreithiol), cynnal a chadw a materion gorfodi. Adolygiad o ddarpariaethau hysbysrwydd i'r cyhoedd a buddiannau ehangach y rhwydwaith llwybrau (a chyfleoedd mynediad eraill) i'r cyhoedd ar hyn o bryd. Dechreuodd gwaith rhagarweiniol i gasglu'r data hyn gydag arolwg o hap-sampl 11% o'r rhwydwaith eisoes ar y gweill.
2. Astudiaeth o sut mae'r ddarpariaeth bresennol yn cael ei defnyddio, gan gynnwys nodi diffygion a chyfleoedd a fethwyd, yn enwedig o wahanol safbwyntiau amrywiol grwpiau buddiant. Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru'n awgrymu y dylai'r gwaith hwn ymestyn i benderfynu galw nas atebwyd am fynediad i gefn gwlad. Felly, mae angen i ymchwil gwmpasu cymunedau 'defnyddwyr' ac 'eraill'.

Tra bo holiaduron a gweithdai'n gallu cynorthwyo gyda'r gwaith sydd ei angen, fe all fod yn anodd cyrraedd yn ddwfn o fewn yr amser sydd ar gael heb gontractio elfennau allan, er y gall rhywfaint o waith sy'n bodoli gydag asesiadau ffyniant fod o gymorth.

Wrth gwblhau dwy gainc yr ymchwil, mae angen cloriannu i weld i ba raddau y mae darpariaeth a rheolaeth bresennol yn ateb galw presennol a thebygol y dyfodol. Bydd yn bwysicach, efallai, penderfynu pa gamau sydd eu hangen lle nad yw galw presennol a thebygol yn cael ei ateb. Mae hyn hefyd yn gorfod ystyried y CGHT cyfredol a sut y cyflawnodd yr amcanion hyn, sy'n asesiad arall sydd angen ei wneud.

Yn ogystal, fel yr amlinellwyd uchod yn y gofynion adolygu, bydd asesiadau eraill yn ofynnol hefyd. Gall hyn fod yn astudiaeth bwrdd gwaith yn bennaf gyda chymorth ymchwil a rhywfaint o ymgynghori gyda sefydliadau priodol.

Goblygiadau adnoddol ac amserlen

Mae'r nodiadau uchod yn darparu rhestr helaeth o dasgau na fydd y tîm Hawliau Tramwy ar ei ben ei hun yn gallu eu hateb a bydd yn dibynnu ar gyfraniad a chefnogaeth y Gwasanaeth Cefn Gwlad a gwasanaethau eraill yn yr awdurdod er mwyn cwblhau'r adolygiad hwn.

Mae'n anodd amcangyfrif yr union adnoddau staffio sydd eu hangen. Er mai swyddog unswydd fyddai orau o ran gallu canolbwyntio ar ddatblygu'r adolygiad, bydd cyfyngiadau ariannol yn golygu rhannu'r gwaith ymhlith swyddogion presennol gyda'u cyfyngiadau eu hunain oherwydd llwyth gwaith rheoledig a galwadau gwasanaeth eithriadol na ragwelwyd. Bydd y Rheolwr Hawliau Tramwy'n gwneud mwyafrif y gwaith gyda chymorth staff eraill o fewn yr Awdurdod yn ôl y gofyn.

Mae'n anodd amcangyfrif faint o adnoddau sydd eu hangen ar gyfer ymchwil. Bydd llawer o ddata cyflwr y rhwydwaith i'w gael yn System Rheoli Mynediad i Gefn Gwlad. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau hawl defnyddio'r grant CGHT presennol sy'n gorffen eleni ar gyfer ymchwil ond nid ar gyfer costau cynhyrchu'r ddogfen.

Casgliad

Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi pwysigrwydd adolygiad y CGHT trwy ei wneud yn ddyletswydd statudol, gan ddadwneud newidiadau cynharach Senedd y DU sydd wedi peri ei fod yn ddewis yn Lloegr. Fe all y Sir fanteisio ar y cyfle hwn i adolygu a chanolbwyntio ei waith i sicrhau ei fod yn cyflawni darpariaethau mynediad i gefn gwlad sy'n gwirioneddol ddiwallu angen defnyddwyr presennol a disgwyliadau defnyddwyr y dyfodol, tirlfeddianwyr a chymunedau. Bydd y cynllun yn cysylltu â pholisïau ehangach sy'n cynorthwyo amcanion cynaliadwy ar gyfer iechyd a'r economi lleol ac yn cysylltu â sefydliadau partner gydag amcanion tebyg.

Amserlen Amodol ar gyfer Cyflawni'r Cynllun Gwella Mynediad i Gefn Gwlad

Gorchwyl	Dyddiad Targed
	Awst 2017
	Hydref 2017
	Awst 2018
	Tachwedd 2018
	Chwefror 2018
	ymlaen

Atodiad 1: Rhestr ymgynghoreion

Mae'r canlynol i gael eu hymgyngori ar Aseiad y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a bydd gwahoddiad iddynt roi sylwadau ar ddrafft y Datganiad Cyflawni.

Cynghorau Cymuned yn Sir Ddinbych

Cyngor Cymuned Aberchwiler
Cyngor Cymuned Betws Gwerful Goch
Cyngor Cymuned Bodelwyddan
Cyngor Cymuned Bodfari
Cyngor Cymuned Bryneglwys
Cyngor Cymuned Cefn Meiriadog
Cyngor Cymuned Clocaenog
Cyngor Cymuned Corwen
Cyngor Cymuned Cwm, Tremeirchion a'r Waun
Cyngor Cymuned Cyffylliog
Cyngor Cymuned Cynwyd
Cyngor Cymuned Derwen
Cyngor Cymuned Dinbych
Cyngor Cymuned y Ddiserth
Cyngor Cymuned Efenechtid
Cyngor Cymuned Gwyddelwern
Cyngor Cymuned Henllan
Cyngor Cymuned Llanarmon yn Iâl
Cyngor Cymuned Llanbedr Dyffryn Clwyd
Cyngor Cymuned Llandegla
Cyngor Cymuned Llandrillo
Cyngor Cymuned Llandyrnog
Cyngor Cymuned Llanelidan
Cyngor Cymuned Llanfair Dyffryn Clwyd
Cyngor Cymuned Llanferres
Cyngor Tref Llangollen
Cyngor Cymuned Llangynhafal
Cyngor Cymuned Llanrhaeadr yng Nghinmeirch
Cyngor Cymuned Llandysilio-yn-Iâl
Cyngor Cymuned Llanynys
Cyngor Cymuned Nantglyn
Cyngor Tref Prestatyn
Cyngor Tref Rhuddlan
Cyngor Tref Rhuthun
Cyngor Tref y Rhyl
Cyngor Tref Llanelwy
Cyngor Cymuned Trefnant

Awdurdodau lleol eraill a fforymau mynediad lleol

Deiliaid portffolio'r Amgylchedd yn y Cabinet
Deiliaid portffolio Twristiaeth yn y Cabinet
Deiliaid portffolio Ffyniant yn y Cabinet
Aelodau grŵp ardal Dyffryn Dyfrdwy
Aelodau grŵp ardal Dinbych
Aelodau grŵp ardal Prestatyn
Aelodau grŵp ardal y Rhyl
Aelodau grŵp ardal Rhuthun
Aelodau grŵp ardal Llanelwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Ddinbych
Cyngor Sir y Fflint
Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint
Cyngor Gwynedd
Fforwm Mynediad Lleol De Eryri
Cyngor Sir Powys
Fforwm Mynediad Lleol Powys
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam
AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

Adrannau ac asiantaethau'r Llywodraeth

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
Y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD)
Croeso Cymru (VW)
Llywodraeth Cymru (LIC)
Partneriaeth Iechyd Cymunedol Sir Ddinbych

Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ann Jones AC
Ken Skates AC
Darren Millar AC
Mark Isherwood AC
Llyr Gruffydd AC
Nathan Gill AC
Michelle Brown AC

Cyrff a sefydliadau eraill

Anabledd Cymru
ATC
Beicwyr y DU (CUK)
Black Environmental Network
Canolfan Farchogaeth Arbennig Clwyd
Cerddwyr Cymru
Clwb Gwersylla a Charafanio
Clwb Mynydda Gogledd Cymru

Coed Cadw
Cymdeithas Ceffylau Prydain (BHS)
Cymdeithas y Cerddwyr - Sir Ddinbych
Cymdeithas y Cerddwyr Anabl
Cymdeithas Ganŵa Cymru
Cymdeithas Hostelau Ieuencid (YHA)
Cymdeithas y Lonydd Gwyrdd
Cymdeithas Mannau Agored (OSS)
Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain (BASC)
Cymdeithas y Sgowtiaid
Cymdeithas Tir ac Adloniant (LARA)
Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLBA)
Cymdeithas Yrru Prydain (BDS)
Cyngor Mynydda Prydain (BMC)
Ffederasiwn Beicwyr Modur Prydain (BMF)
Ffederasiwn Cyfeiriannu Prydain (BOF)
Geidiaid Cymru
Glandŵr Cymru (Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd)
Gweinyddwyr Gwobr Dug Caeredin
Gwasanaeth Addysg Awyr Agored Gogledd-ddwyrain Cymru
Marchogaeth i Bobl Anabl (RDA)
MIND Cymru
Mudiad Meithrin
Parc Cenedlaethol Eryri
RSPB Gogledd Cymru (RSPB)
Safle Treftadaeth y Byd Pontcysyllte
Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB)
Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar (RNID)
Sustrans
Swyddog Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa
Trail Riders Fellowship (TRF)
Treadlightly
Twristiaeth Gogledd Cymru
Tywyswyr Mynyddoedd Prydain
Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU)
UPM Tlhill
Welsh Trail Riders Association
Y Ganolfan Fynydd Genedlaethol (Plas y Brenin)
Y Gymdeithas Frenhinol er Hyrwyddo Iechyd
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (NT)
Ymddiriedolaeth Bronfraith yr Eira
Ymddiriedolaeth Cilffyrdd a Llwybrau Ceffylau (BBT)
Ystâd Nant Clwyd (Berringtons)
Ystâd Bodrhyddan – Carter Jonas
Ystâd Rhug (Swyddfa'r Stad)
Ystâd Wynnstay (Swyddfa Stad)

Nodiadau